



GOFYNION CYMHWYSTERAU DRAFFT

**CYMHWYSTER SYLFAEN
YM MAES ADEILADU A'R
AMGYLCHEDD ADEILEDIG**

Meini Prawf Cymeradwyo Drafft: Cymhwyster Sylfaen mewn Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig (teitl petrus) (540 o Oriau Dysgu Dan Arweiniad)

Diben

Mae'r Cymhwyster Sylfaen mewn Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig yn gymhwyster ôl-16 lefel 2 arfaethedig sy'n cynnig cyflwyniad eang i ddysgwyr i'r sector, gan ddatblygu eu gwybodaeth am y sector, cylch oes yr amgylchedd adeiledig, y crefftau a'r rolau ynddo a'r rhyng-ddibyniaethau rhwng pobl sy'n cyflawni'r rolau hyn a dealltwriaeth y dysgwyr ohonynt.

Bydd y cymhwyster hwn yn datblygu sgiliau dysgwyr mewn o leiaf dwy grefft ac mewn cynllunio, cyflawni a gwerthuso tasgau cyffredin yn y meysydd crefft hyn. Bydd dysgwyr sy'n astudio'r cymhwyster hwn yn datblygu eu gallu i berfformio'r tasgau hyn mewn ffyrdd sy'n hyrwyddo ac yn cynnal eu hiechyd a'u diogelwch eu hunain ac iechyd a diogelwch pobl eraill, a byddant hefyd yn datblygu sgiliau cyflogadwyedd trosglwyddadwy a fydd yn berthnasol i'w gwaith yn y dyfodol, p'un ai yn y sector adeiladu a'r amgylchedd adeiledig neu unrhyw sector arall.

Bydd y cymhwyster yn sicrhau y bydd gan ddysgwr sy'n dechrau ei daith i gyflogaeth yn y sector hon ddealltwriaeth eang a thrawsbynciol o'r sector ac yn gallu gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am eu datblygiad eu hunain. Gellir ei astudio fel rhaglen ddysgu amser llawn sy'n para am flwyddyn; fel rhaglen ddysgu rhan amser fel rhan hanfodol o fframwaith Prentisiaeth; neu ar gyfer gweithwyr safle sydd am ehangu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u sgiliau yn y sector yn fwy cyffredinol.

Nodau ac amcanion arfaethedig

Mae'n rhaid i'r fanyleb ar gyfer y Cymhwyster Sylfaen mewn Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig alluogi dysgwyr i ddatblygu'r canlynol:

- Eu dealltwriaeth o'r adeiladau a'r strwythurau sy'n rhan o'r amgylchedd adeiledig a'r ffordd maent yn newid ac wedi newid dros amser;
- Eu dealltwriaeth o'r crefftau, y rolau a'r gyrfaoedd yn y sector adeiladu a'r amgylchedd adeiledig;
- Eu dealltwriaeth o gylch oes adeiladau a strwythurau yn yr amgylchedd adeiledig a'r egwyddorion a'r prosesau cysylltiedig ar bob cam;
- Eu sgiliau cyflogadwyedd a'u dealltwriaeth o'r ffordd y mae'r rhain yn bwysig ac yn berthnasol i'r gweithle yn y sector adeiladu a'r amgylchedd adeiledig;
- Eu gwybodaeth am y gofynion iechyd a diogelwch wrth weithio ar safleoedd, gyda chyfarpar a gydag eraill a'u gallu i gydymffurfio â nhw;
- Eu sgiliau sylfaenol mewn o leiaf dwy grefft yn y sector adeiladu a'r amgylchedd adeiledig a'u dealltwriaeth ohonynt;

- Eu sgiliau o ran cynllunio, cyflawni a gwerthuso tasgau ymarferol sy'n gysylltiedig ag o leiaf dwy grefft yn y sector adeiladu a'r amgylchedd adeiledig a'u dealltwriaeth ohonynt.

Cynnwys arfaethedig y pwnc

Mae'n rhaid i'r corff dyfarnu sicrhau bod cynnwys pob maes dysgu isod yn cael ei gwmpasu yn y fanyleb ar gyfer y cymhwyster.

Maes Dysgu 1: Cyflwyniad i'r Amgylchedd Adeiledig

Maes Dysgu 2: Cyflwyniad i'r Crefftau yn y Sector Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig

Maes Dysgu 3: Cyflwyniad i Gylch Oes yr Amgylchedd Adeiledig

Maes Dysgu 4: Cyflogadwyedd yn y Sector Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig

Maes Dysgu 5: Cynnal a Chadw Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd yn y Sector Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig

Maes Dysgu 6: Cyflwyniad i Dechnolegau sy'n Datblygu yn y Sector Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig

Maes Dysgu 7: Profiad Crefft Cyntaf yn y Sector Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig

Maes Dysgu 8: Ail Brofiad Crefft yn y Sector Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig

Meysydd Dysgu 1 – 6

Ym Meysydd Dysgu 1 i 6, mae'n rhaid i'r fanyleb ar gyfer y Cymhwyster Sylfaen mewn Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ddatblygu eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth yn y meysydd canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

Maes Dysgu	Pwnc	Cynnwys – gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:
1. Cyflwyniad i'r Amgylchedd Adeiledig	a. Y mathau a dibenion adeiladau yn yr amgylchedd adeiledig	<ol style="list-style-type: none">i. Y prif fathau o gartrefi domestig a'u dibenion.ii. Y diffiniad o adeiladau treftadaeth a thraddodiadol (cyn 1919) a meysydd dylunio allweddol a newidiadau dros amser.iii. Y prif fathau o adeiladau masnachol a diwydiannol a'u dibenion.iv. Y prif newidiadau dylunio dros amser i adeiladau masnachol a diwydiannol.v. Y prif fathau o adeiladau cyhoeddus a'u dibenion.vi. Y prif newidiadau dylunio dros amser i adeiladau cyhoeddus.
	b. Y mathau o strwythurau yn yr amgylchedd adeiledig a'u dibenion	Y prif fathau o seilwaith a'u dibenion: <ul style="list-style-type: none">• Priffyrdd• Pontydd• Twnelau• Tyrau• Rhwydweithiau trafndiaeth• Gwasgariad gwasanaethau• Amddiffyniadau llifogydd ac arfordirol.

2. Cyflwyniad i'r Crefftau yn y Sector Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig	a. Y prif grefftau adeiladu	<ul style="list-style-type: none"> • Galwedigaethau trywel • Galwedigaethau pren • Plastro • Galwedigaethau gorffeniadau addurniadol a phaentio diwydiannol • Gweithrediadau mynediad a rigio • Galwedigaethau toi • Gweithrediadau adeiladu a pheirianeg sifil
	b. Y prif grefftau peirianeg gwasanaethau adeiladu	<ul style="list-style-type: none"> • Gosodiadau electrodechnegol • Plymio • Peirianeg gosod nwy • Gwresogi ac awyru • Oeri ac aerdymheru
	c. Y rhyng-ddibyniaethau rhwng crefftau	Rhyng-ddibyniaethau pob crefft yn y sector adeiladu a'r amgylchedd adeiledig.
	d. Y sgiliau traddodiadol yn y sector adeiladu a'r amgylchedd adeiledig	<ul style="list-style-type: none"> i. Y prif sgiliau traddodiadol a ddefnyddir mewn gwaith traddodiadol a threftadaeth. ii. Y gwahaniaethau allweddol rhwng y prif dechnegau traddodiadol a chyfredol ym mhob sgil. iii. Deunyddiau priodol ac amhriodol i'w defnyddio mewn adeiladau a strwythurau traddodiadol a hanesyddol. iv. Newidiadau anaddas i'w gwneud i adeiladau traddodiadol wrth osod cyfleusterau modern.

3. Cyflwyniad i Gylch Oes yr Amgylchedd Adeiledig	a. Dylunio adeiladau a strwythurau	i. Dibenion gwneud arolwg.
		ii. Egwyddorion sylfaenol gwneud arolwg (gwneud arolwg cadwyn, gwneud arolwg bwrdd plân, gwneud arolwg cwmpas ac ati).
		iii. Y prif gyfarpar a ddefnyddir wrth wneud arolwg (theodolitau, cwmpodau, cyfarpar geometrig ac ati).
		iv. Y prif egwyddorion amgylcheddol a'u pwysigrwydd: rhagofalus, ataliol, wedi'i gywiro yn y tarddle, ymgorffori, y llygrwr sy'n talu ac ati.
		v. Egwyddorion ystyriaethau ecolegol.
		vi. Rhywogaethau sylfaenol a warchodir (adar, ystlumod, ffawna, fflora, madfallod dŵr ac ati).
		vii. Gofynion cymdeithasol ar gyfer cymunedau hygyrch, ymarferol a diogel.
		viii. Y prif ofynion diwylliannol ar gyfer adeiladau a strwythurau gwahanol.
		ix. Egwyddorion allweddol gwaith dylunio esthetig.
		x. Prif egwyddorion cynaliadwyedd.
		xi. Pwysigrwydd ymarfer cynaliadwy yn y sector adeiladu a'r amgylchedd adeiledig.
		xii. Effaith arferion cynaliadwy ac anghynaliadwy.
		xiii. Dylunio gwastraff allan o brosiectau.
		xiv. Cynlluniau a gwaith sgematig strwythurol ac adeiladu.

		<p>xv. Defnydd o sgiliau rhif a geometrig mewn cynlluniau a gwaith sgematig.</p> <p>xvi. Egwyddorion sylfaenol Modelu Gwybodaeth am Adeiladau (BIM).</p> <p>xvii. Defnydd a chymwysiaid sylfaenol BIM mewn prosiectau adeiladu a'r amgylchedd adeiledig.</p>
	b. Y broses gynllunio	<p>i. Deddfwriaeth a rheoliadau cynllunio sylfaenol sy'n effeithio ar brosiectau adeiladu a pheirianeg gwasanaethau adeiladu.</p> <p>ii. Camau gweithredu a chanlyniadau posibl ar gyfer torri deddfwriaeth a rheoliadau.</p>
		<p>iii. Rhestr dreftadaeth.</p> <p>iv. Y ffactorau sy'n gysylltiedig â rhestr dreftadaeth a thraddodiadol (cyn 1919) (ardal gadwraeth, adeiladau, henebion, amserlennu, nodi yn unig yw'r rhestr, y nodweddion sydd wedi'u cuddio sydd wedi'u cynnwys ac ati).</p> <p>v. Camau gweithredu a chanlyniadau posibl ar gyfer torri protocolau sy'n gysylltiedig â rhestr ac ymarfer o'r fath.</p>
	c. Prif gamau adeiladu a gosod gwasanaethau	Dilyniannau arferol (gwaith paratoi'r pridd i doi, comisiynu, profion pwysedd, mân broblemau ac ati).
	d. Gwasanaethau marchnata a gwerthu yn y sector adeiladu a'r amgylchedd adeiledig	<p>i. Technegau traddodiadol a chyfredol ar gyfer marchnata (hysbysebion, cyfryngau cymdeithasol ac ati).</p> <p>ii. Effaith gwerthiannau cyson ar broffidioldeb prosiectau a busnesau.</p>

	<p>e. Gwaith cynnal a chadw adeiladau, strwythurau a gwasanaethau wedi'u gosod</p>	<ul style="list-style-type: none"> i. Dibenion gwasanaethu a chynnal a chadw i ymestyn bywyd y gellir ei wasanaethu, atal achosion o fethu a cholli effeithiolrwydd a chynnal diogelwch. ii. Mathau ac amserlen gwasanaethu a chynnal a chadw arferol ar gyfer adeiladau, strwythurau a gwasanaethau gwahanol. iii. Y prif atgyweiriadau a wneir gan grefftwyr gwahanol yn y sector adeiladu a'r amgylchedd adeiledig. iv. Y ffyrdd y gellir addasu adeiladau, strwythurau a gwasanaethau wedi'u gosod dros eu bywydau defnyddiol a'r ffyrdd y cânt eu haddasu.
	<p>f. Dymchwel adeiladau a strwythurau</p>	<ul style="list-style-type: none"> i. Y prif ofynion o ran dadgomisiynu (datgysylltu o wasanaethau, diogelwch ac ati). ii. Y mathau o ddymchwel. iii. Dulliau priodol o ddymchwel ar gyfer gwahanol fathau o adeiladau a strwythurau. iv. Risgiau sy'n gysylltiedig â dymchwel a lliniaru risg. v. Gofynion a rhesymau dros waredu gwastraff ac ailgylchu. vi. Y prif gamau sy'n rhan o waredu gwastraff dymchwel.
	<p>g. Newid pwrpas adeiladau a strwythurau</p>	<ul style="list-style-type: none"> i. Newid pwrpas ac adfer adeiladau a strwythurau gwahanol. ii. Enghreifftiau cyffredin o newid pwrpas (ailddatblygu hen adeiladau diwydiannol yn gartrefi, ailwampio pontydd a thwneli at ddibenion teithio ac ati). iii. Pwysigrwydd a manteision ailgylchu ac aildddefnyddio. iv. Aildddefnyddio deunyddiau traddodiadol a hanesyddol.

4. Cyflogadwyedd yn y Sector Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig	a. Cyflogaeth a chyfleoedd	<ul style="list-style-type: none"> i. Rolau swyddi, llwybrau gyrfa a mathau o gyfleoedd cyflogaeth yn y sector. ii. Patrymau mewn cyflogaeth a'r galw yn codi a lleihau. iii. Y mathau o swyddi gwag sydd ar gael fwyaf yn y sector. iv. Dod o hyd i gyfleoedd swyddi cyfredol a phrentisiaethau gwag yn y sector.
	b. Sgiliau cyflogadwyedd	<ul style="list-style-type: none"> i. Moeseg gwaith. ii. Ymddygiadau. iii. Datrys problemau mewn cyd-destunau gwahanol. iv. Gweithio mewn tîm a sgiliau rhyngpersonol. v. Hyblygrwydd. vi. Adeiladu ystyriol.
	c. Economeg sylfaenol busnes	<ul style="list-style-type: none"> i. Elw sylfaenol a cholled. ii. Canlyniadau colli elw ar fusnesau. iii. Prif anghenion busnes. iv. Pwysigrwydd ansawdd ar enw da a busnes. v. Pwysigrwydd cwsmeriaid a gwasanaeth cwsmeriaid. vi. Manteision cynhyrchiant ac effeithlonrwydd.

5. Cynnal a Chadw Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd ym maes Adeiladu a Pheirianeg Gwasanaethau Adeiladu	a. Y gofynion allweddol ar gyfer gweithio'n ddiogel ar safleoedd.	<ul style="list-style-type: none"> i. Dylai'r maes hwn ymgorffori'r manylebau yn 'Iechyd a Diogelwch mewn Amgylchedd Adeiledig'. ii. Y prif ofynion ar gyfer diogelwch safle. iii. Y prif beryglon a risgiau, er enghraifft gweithio ar uchder, gweithio mewn dyfnder, gweithio mewn lleoedd cyfyng, gweithio gyda gosodiadau trydanol a / neu nwy neu o'u hamgylch, nwy, halogiad ac ati. iv. Y meini prawf at gyfer adeiladu ystyriol a sicrhau diogelwch ehangach v. Y prif dechnegau ar gyfer nodi, ynysu, diogelu, comisiynu a dadgomisiynu gwasanaethau.
	b. Y technegau a'r cymorth sydd ar gael i aros yn iach yn y gwaith.	<ul style="list-style-type: none"> i. Pwysigrwydd cynnal a chadw eu llesiant eu hunain a cheisio cymorth pan fydd angen. ii. Y cymorth sydd ar gael ar gyfer iechyd meddwl a phroblemau eraill a allai effeithio ar eu llesiant eu hunain neu lesiant pobl eraill. iii. At bwy i fynd yn y gwaith pan fyddant yn wynebu problemau sy'n effeithio ar eu llesiant eu hunain neu lesiant pobl eraill neu broblemau a allai effeithio ar eu llesiant eu hunain neu lesiant pobl eraill. iv. Polisiâu gwrth-fwlio a beth i'w wneud os byddant yn wynebu anawsterau.
	c. Y prif ofynion ar gyfer diogelu'r amgylchedd wrth weithio ar safleoedd.	<ul style="list-style-type: none"> i. Dylai'r maes hwn ymgorffori'r manylebau yn 'Iechyd a Diogelwch mewn Amgylchedd Adeiledig'. ii. Y prif ofynion ar gyfer diogelu'r amgylchedd. iii. Y prif beryglon a risgiau (wrth ddefnyddio deunyddiau niweidiol ac ati). iv. Y prif dechnegau ar gyfer gwaredu gwastraff a chanlyniadau posibl mynd yn groes i reoliadau sy'n diogelu'r amgylchedd ac ati.

6. Cyflwyniad i Dechnolegau sy'n Datblygu yn y Sector Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig	Egwyddorion sylfaenol a defnyddio Modelu Gwybodaeth am Adeiladau (BIM).	<ul style="list-style-type: none"> i. Egwyddorion sylfaenol BIM (proses, cydweithredu, oes, data 3D a 4D ac ati). ii. Defnyddio BIM yn y sector adeiladu a'r amgylchedd adeiledig (cynllunio, dylunio, adeiladu, a rheoli adeiladau a seilwaith ac ati).
	Argraffu 3D	Defnyddio gwaith argraffu 3D yn y sector adeiladu a'r amgylchedd adeiledig (cynllunio, dylunio, adeiladu modelau ac ati).
	Rhagsaerniaeth ac adeiladu modiwlwr	Defnyddio rhagsaerniaeth ac adeiladu modiwlwr ym maes adeiladu a pheirianeg gwasanaethau adeiladu.
	Rhith-wirionedd (VR)	Defnyddio VR yn y sector adeiladu a'r amgylchedd adeiledig.
	Natur esblygol technoleg deunyddiau	Datblygiadau allweddol mewn technoleg deunyddiau a ddefnyddir yn y sector adeiladu a'r amgylchedd adeiledig (e.e. asffalt hunan-wella, toeon hylif, toeon plyg unigol, gwaith metel ac ati).

Maes Dysgu 7

Ym Maes Dysgu 7, mae'n rhaid i'r fanyleb ar gyfer y Cymhwyster Sylfaen mewn Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ddewis **un** o'r meysydd crefft canlynol:

1. Galwedigaethau trywel
2. Galwedigaethau pren
3. Galwedigaethau gorffeniadau addurniadol a phaentio diwydiannol
4. Plastro
5. Plymio a gwresogi domestig
6. Gweithrediadau mynediad a rigio
7. Galwedigaethau toi
8. Galwedigaethau gwresogi ac awyru
9. Gosod systemau a chyfarpar electrodechnegol
10. Gweithrediadau adeiladu a gwasanaethau peirianeg sifil

a datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth a'u sgiliau yn y meysydd canlynol:

- i. Yr egwyddorion sylfaenol sy'n llywio gwaith crefftwyr yn y maes hwn;
- ii. Y derminoleg crefft-benodol sy'n gysylltiedig â'r maes crefft;
- iii. Y gofynion ar gyfer cyflawni tasgau cyffredin yn y maes crefft;
- iv. Cwblhau tasgau cyffredin yn y maes crefft hwn;
- v. Defnyddio'r cyfarpar, y deunyddiau a'r technolegau cywir sy'n ofynnol yn gyffredinol yn y maes crefft hwn;
- vi. Cyflawni tasgau mewn ffordd sy'n hyrwyddo eu hiechyd a'u diogelwch eu hunain ac iechyd a diogelwch pobl eraill;
- vii. Darllen a dadansoddi cynlluniau a dogfennaeth cyffredinol sy'n ofynnol wrth gyflawni tasgau cyffredinol yn y maes crefft hwn;
- viii. Cynllunio'r gwaith o gwblhau tasgau cyffredinol yn y maes crefft hwn, gan ddefnyddio'r sgiliau llythrennedd a rhifedd sy'n ofynnol i wneud hynny;
- ix. Gosod meini prawf perfformiad ar gyfer cwblhau tasgau cyffredinol yn y maes crefft hwn;
- x. Gwerthuso perfformiad eu gwaith wrth gwblhau tasgau cyffredinol yn y maes crefft hwn mewn perthynas â'r gofynion a bennwyd a'u meini prawf llwyddiant eu hunain.

Maes Dysgu 8

Ym Maes Dysgu 8, mae'n rhaid i'r fanyleb ar gyfer y Cymhwyster Sylfaen mewn Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ddewis **un** o'r meysydd crefft canlynol (nad yw'r un peth â'r llwybr penodol a gymerwyd yn y grefft a ddewiswyd ym Maes Dysgu 7, e.e. gall dysgwr fod wedi astudio gwaith olwynion ym maes galwedigaethau pren ym Maes Dysgu 7 felly gall astudio gosod strwythur to a rag-gydodwyd o dan alwedigaethau pren ym Maes Dysgu 8 oherwydd maent yn sylweddol wahanol):

1. Galwedigaethau trywel
2. Galwedigaethau pren
3. Galwedigaethau gorffeniadau addurniadol a phaentio diwydiannol
4. Plastro
5. Plymio a gwresogi domestig
6. Gweithrediadau mynediad a rigio
7. Galwedigaethau toi
8. Galwedigaethau gwresogi ac awyru
9. Gosod systemau a chyfarpar electrodechnegol
10. Gweithrediadau adeiladu a gwasanaethau peirianeg sifil

a datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth a'u sgiliau yn y meysydd canlynol:

- i. Yr egwyddorion sylfaenol sy'n llywio gwaith crefftwyr yn y maes hwn;
- ii. Y derminoleg crefft-benodol sy'n gysylltiedig â'r maes crefft;
- iii. Y gofynion ar gyfer cyflawni tasgau cyffredin yn y maes crefft;
- iv. Cwblhau tasgau cyffredin yn y maes crefft hwn;
- v. Defnyddio'r cyfarpar, y deunyddiau a'r technolegau cywir sy'n ofynnol yn gyffredinol yn y maes crefft hwn;
- vi. Cyflawni tasgau mewn ffordd sy'n hyrwyddo eu hiechyd a'u diogelwch eu hunain ac iechyd a diogelwch pobl eraill;
- vii. Darllen a dadansoddi cynlluniau a dogfennaeth cyffredinol sy'n ofynnol wrth gyflawni tasgau cyffredinol yn y maes crefft hwn;
- viii. Cynllunio'r gwaith o gwblhau tasgau cyffredinol yn y maes crefft hwn, gan ddefnyddio'r sgiliau llythrennedd a rhifedd sy'n ofynnol i wneud hynny;
- ix. Gosod meini prawf perfformiad ar gyfer cwblhau tasgau cyffredinol yn y maes crefft hwn;
- x. Gwerthuso perfformiad eu gwaith wrth gwblhau tasgau cyffredinol yn y maes crefft hwn mewn perthynas â'r gofynion a bennwyd a'u meini prawf llwyddiant eu hunain.

Amcanion asesu arfaethedig

Rhaid i'r asesiad o'r wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth sy'n ofynnol yn y fanyleb dargedu'r amcanion asesu canlynol, yn unol â'r pwysoliadau a roddir:

AA	DISGRIFIAD	PWYSOLIAD (+/-5%)
AA1	Dangos gwybodaeth am y sector adeiladu a'r amgylchedd adeiledig a dealltwriaeth ohono, a'r rolau, y sgiliau a'r egwyddorion sy'n rhan o'r gwaith o'i ddylunio, ei adeiladu, ei ddefnyddio a'i gynnal a'i gadw.	40%
AA2	Cymhwyso sgiliau a gwybodaeth am yr amgylchedd adeiledig wrth ymateb i friff a bennwyd a dealltwriaeth ohono.	40%
AA3	Myfyrio ar y sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth a ddangosir mewn gwaith ymarferol, a'u gwerthuso.	20%

Cynllun asesu arfaethedig

Mae'n rhaid i'r fanyleb ar gyfer y Cymhwyster Sylfaen mewn Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig sicrhau bod dysgwyr yn cwblhau tri asesiad.

Mae'n rhaid i'r fanyleb ddangos bod y cynllun asesu yn cydbwysu ystyriaethau hydrinedd, ymgysylltu, dibynadwyedd a dilysrwydd. Mae'n rhaid i'r manylebau sicrhau'r canlynol:

- bod y trefniadau asesu, ar y cyfan, yn hydrin ar gyfer canolfannau a dysgwyr;
- bod y trefniadau asesu, ar y cyfan, yn ennyn diddordeb dysgwyr yn ddigonol ac yn hyrwyddo a chynnal diddordeb dysgwyr yn y maes pwnc;
- y bydd y trefniadau asesu yn sicrhau dibynadwyedd deilliannau asesu, ar lefel y ganolfan ac ar lefel genedlaethol a thros amser;
- bod y trefniadau asesu yn ffordd ddilys o asesu ar gyfer y sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sy'n cael eu hasesu.

Mae'n rhaid i'r fanyleb ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr gael gradd Llwyddo, Teilyngdod, Rhagoriaeth neu Fethu a'u bod yn cyflawni gradd Llwyddo o leiaf ym mhob cydran asesu i ennill marc cyffredinol.

Asesiad	Gofynion	Maint a Chwmpas Sylfaenol
<p>Asesiad ar sgrin (F1) (20% o'r pwysoliad cyffredinol)</p> <p><i>Asesiadau allanol.</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> • Rhaid ei gwblhau o dan lefel uchel o reolaeth heb fynediad i ddeunydd cyfeirio; • Rhaid iddo fod ar ffurf amlddewis, gan ymgorffori ystod o arddulliau cwestiynau; • Rhaid defnyddio gwelliannau megis deunydd ysgogi clyweledol. 	<p>Rhaid samplu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth sy'n ofynnol ym Meysydd Dysgu 1 i 6.</p> <p>AA1 AA2</p>
<p>Prosiect ymarferol (60% o'r pwysoliad cyffredinol)</p> <p><i>I'w asesu'n fewnol ac yn amodol ar ddilysiad allanol.</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> • Rhaid ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ymgymryd ag un prosiect ymarferol neu fwy mewn lleoliad efelychu, y llunnir deilliannau pendant ohonynt; • Rhaid i'r sgiliau a ddangosir fod yn seiliedig ar y rhai a ddewiswyd ym Meysydd Dysgu 7 a 8; • Gall ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ymgymryd â: <ul style="list-style-type: none"> ○ Dau brosiect yn seiliedig ar ddewisiadau crefft o Feysydd Dysgu 7 ac 8 sy'n gwneud cyfanswm o 60 o Oriau Dysgu dan Arweiniad (GLH); <i>neu</i> ○ Un prosiect lliniarol yn cyfuno dewisiadau crefft o Feysydd Dysgu 7 ac 8 sy'n gwneud cyfanswm o 60 o Oriau Dysgu dan Arweiniad (GLH); • Rhaid cynnwys camau cynllunio, ymarferol a gwerthuso'r prosiect; • Rhaid ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ddangos sgiliau meddal a sgiliau ehangach a gwybodaeth a gwmpaswyd ym Meysydd Dysgu 4 a 5. 	<ul style="list-style-type: none"> • 60 o oriau dysgu dan arweiniad • Rhaid asesu'r sgiliau a'r wybodaeth sy'n ofynnol ym Meysydd Dysgu 4, 5, 7 a 8 a'r ddealltwriaeth ohonynt. <p>AA1 AA2 AA3</p>

<p>Trafodaeth dan arweiniad (20% o'r pwysoliad cyffredinol)</p> <p><i>I'w asesu'n fewnol ac yn amodol ar ddilysiad allanol.</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> • Rhaid ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr gwblhau trafodaeth dan arweiniad a gaiff ei hasesu'n fewnol. • Rhaid ei gwneud yn ofynnol i ganolfannau ddarparu ystod o gwestiynau strwythuredig neu bwyntiau trafod i ddysgwyr cyn y drafodaeth; • Rhaid ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr fyfyrion ar y sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth o Feysydd Dysgu 7 a 8 mewn perthynas â'u prosiectau ymarferol, yr hyn sy'n dibynnu ar grefftiau eraill a gwerthuso ansawdd eu deilliannau; • Rhaid iddo fod o hyd penodol. 	<p>Rhaid asesu'r sgiliau a'r wybodaeth am Feysydd Dysgu 2, 7 a 8 a'r ddealltwriaeth ohonynt.</p> <p>AA1</p> <p>AA3</p>
--	--	--

Gellir asesu cynnwys ychwanegol o feysydd dysgu eraill yn y dulliau a ddisgrifir uchod, fel y tybir sy'n addas.